Felly carodd Duw wrthrychau

Caneuon Ffydd: Rhif 204

Felly carodd Duw wrthrychau
anhawddgara' erioed a fu,
felly carodd, fel y rhoddodd
annwyl Fab ei fynwes gu;
nid arbedodd, ond traddododd
ef dros ein pechodau i gyd:
taro'r cyfaill, arbed gelyn,
"Felly carodd Duw y byd."

Felly carodd, ond ni ddichon
holl angylion nef y nef
draethu, i oesoedd tragwyddoldeb,
led a hyd ei gariad ef;
dyfnach yw na dyfnder daear,
uwch na'r nefoedd fawr i gyd;
rhaid yw tewi gyda dwedyd,
"Felly carodd Duw y byd."

Felly carodd: hyfryd newydd
aed ar adain awel gref
nes i'w atsain gyrraedd clustiau
pob pechadur dan y nef;
felly carodd, felly carodd
seinied pob creadur byw,
fel bo i'r dylanwad nerthol
danio'r byd â chariad Duw.

GWILYM HIRAETHOG, 1802 – 83

MYFYRDOD

Pe byddem yn gofyn ymhle mae canol a chalon yr Efengyl i'w chael, ac ym mha adnod y mae hi'n cael ei chrynhoi orau ar ein cyfer, yna byddai'n rhaid troi at Ioan 3:16 a darllen yno am gariad Duw: 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Cariad yw thema'r crynodeb hwn o'r Efengyl, cariad wedi ei amlygu mewn modd gogoneddus ac na fydd diwedd ar ei effaith na'i werth.

'Felly carodd . . . fel y rhoddodd . . . fel na choller', yw rhediad yr adnod yn ein Hen Gyfieithiad. Rhyfeddod a mawl sydd gan Gwilym Hiraethog yma at y cariad hwnnw sydd wedi peri bod

Duw wedi rhoi ei Fab inni. Wrth aralleirio'r adnod adnabyddus hon, mae Gwilym Hiraethog wedi llunio emyn i gariad ac wedi ei drwytho â sôn am y cariad hwnnw. Ceir y geiriau 'cariad' a 'carodd' ddeg o weithiau trwy'r tri phennill. Cofiwn am rai o emynau eraill Gwilym Hiraethog sy'n mynegi'r un rhyfeddod at gariad Duw: 'Dyma gariad fel y moroedd' yn un ohonynt, lle sonia am 'gariad nad â'n angof tra fo nefoedd wen yn bod', ac am 'ras a chariad megis dilyw', yn cydweithio â 'chyfiawnder pur a heddwch' er mwyn 'cusanu euog fyd' (Salm 85:10 yw sail y ddelwedd honno).

Mae'r ferf Roeg a ddefnyddir gan Ioan i ddisgrifio cariad Duw yma yn unigryw ynddi ei hun. Mae'n arwyddo cariad diamod Duw nad oes modd byth ei drechu ac sydd yn ceisio'r gorau posibl i ddynoliaeth. Mae'n air sydd yn unigryw i'r gymuned Gristnogol ac nad oes sôn amdano o'r bron gan ysgrifenwyr heblaw rhai y Testament Newydd.

Fe fynegir peth o fawredd ystyr y cariad hwn gan Gwilym Hiraethog yn ei ail bennill yma: 'ni ddichon holl angylion nef y nef draethu . . . led a hyd ei gariad ef'. Mae'n gariad dyfnach ac uwch na dim arall. Atgoffir ni wrth feddwl am ddyfnder daear ac uchder nefoedd nad oedd Paul chwaith yn gwybod am gariad tebyg iddo, a'i fod 'yn gwbl sicr na all . . . uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' (Rhuf. 8:38–39). Fe berswadiwyd Gwilym Hiraethog yntau o'r ffaith yma na all dim byd ein gwahanu oddi wrth y cariad hwn, ac na fedr dim oll a wnawn ni beri bod Duw yn troi ei gefn arnom ni, na dim oll a ddaw ar ein traws ni ein torri ni oddi wrth ei gariad ef. Erbyn ei drydydd pennill mae'n hemynydd ni am i bawb gael clywed am y cariad anghymharol hwn 'nes i'w atsain gyrraedd clustiau pob pechadur dan y nef'. Mae'n gariad nerthol, llawn grym, ac o'i dderbyn a'i fwynhau yn Iesu Grist, yn abl i 'danio'r byd â chariad Duw'.

GWEDDI

O Dduw, gwn mai Duw cariad wyt ti; helpa fi i brofi'r cariad hwnnw yn rym yn fy mywyd i fy hun, dy gariad di tuag ataf fi yn Iesu Grist, a gwybod wedyn nad oes dim a all fy ngwahanu i byth oddi wrth dy gariad di. Yn enw Iesu. Amen.